# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 18.06.2024

*Presennol: Meredydd Williams, Eirian Hoyle ,Lynda Massarelli, Heulwen Parry, Eurwyn Jones, Gareth Jones*

1. Ymddiheuriadau: Elfed Roberts

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: EJ, LM

2a. Datgan Diddordeb: Lynda Massarrelli yn datgan diddordeb i cynllunio, Rhif NP5/73/248D Cefn Faes, Gellilydan.

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.546 Cae Chwarae Gellilydan- Clerc i gysylltu i weld pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud, (cadw mlaen).

3.547 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – Elfed Roberts wedi cyfarfod gyda Amanda Murray ac Bryn Hughes, gwybodaeth i'w anfon mlaen i'r clerc.(cadw mlaen).

3.548 National Grid: MW am anfon gwybodaeth ymlaen at Dwynwen Williams (cadw mlaen).

3.549 Parcio Gellilydan: Cysylltu a Chyngor Gwynedd ynghlŷn a pharcio ar y palmant, a gofyn os oes posib gwneud lle parcio, Llwyn Eifion fyny at Coed y Llwyn.(cadw mlaen).

3.550 Neuadd y Pentref - Cyfansoddiad y Neuadd i ddilyn, LM am anfon copi i'r ymddiriedolwyr, (cadw mlaen).

3.551 Plas Tan y Bwlch - clerc i ail-gysylltu a phwysleisio ar bwysicrwdd y lle ac i'w gadw i'r gymuned leol (cadw mlaen).

3.552 – Safleoedd Bysiau Maentwrog –ER am drefnu cyfarfod gyda Rhian Wyn Williams, (cadw mlaen).

3.553 Hyfforddiant – ymateb wedi ei dderbyn gan Un Llais, *'Bwrsariaeth yn unig ar gyfer Cynghorau sydd ag incwm blynyddol wedi'i gyllidebu yw £100k neu lai. Mae lleoedd am ddim Llywodraeth Cymru yn rhad ac am ddim i bob Cyngor yng Nghymru'*. Clerc i drefnu hyfforddiant ar Ddeallt y Gyfraith ac Côd Ymddygiad, Eirian Hoyle ac Lynda Massarelli

3.554 Is-bwyllgor – creu is-bwyllgor ar wahân i'r Cyngor – cadw mlaen tan y cyfarfod nesaf.

3.555 Cŵn - Lynda Massarreli wedi bod mewn cysylltiad a'r Warden. Mae am roi arwyddion Newydd o gwmpas y pentref ac wedi trafod gyda'r maes carafannau. Nid oes arwyddion ar gyfer gadw cŵn ar dennyn oherwydd nid yw yn bolisi gan Cyngor Gwynedd. Clerc i gysyslltu a'r Prif Weithredwr.

<u>4. Materion i'w trafod ar y pryd</u>

EE 08.24



CamScanner

4.226 Paneli Solar / Ynni Twrog – Aroddiad gan Meredydd Williams ar ran y'r ymddiriedolwyr / cyngor. Pasio mewn egwyddor i fynd ymlaen gyda'r prosiect.

4.227 Cae chwarae Maentwrog – Owain Aeron wedi gwneud gwaith da yno wrth dorri a thacluso'r gwair.

4.228 Archwiliad – wedi ei gwblhau, adroddiad wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd. Trafwyd ei gynnwys yn fanwl. Clerc i'w hafnon ymlaen at yr Archwilydd Allanol.

4.229 Diffibrilwyr – trafod cyfarfod nesaf.

4.230 Cysylltu ar Adrian Williams, gwrych a choed angen eu torri o gwmpas y pentref, hefyd ar y ffordd mewn i'r Pentref. Hefyd symud y llinellau melyn wrth Gwesty'r Grapes mwy lawr at y bont. Ail gysylltu a'r Adran Briffyrdd ynglyn a loriau ar ffordd Maentwrog at Cilfor,

4.231 Adolygwyd Cofrestr Asedau y cyngor.

4.232 Seddi gwag – clerc i gysylltu a Tomos Ephraim-Parry, oherwydd absonoldeb, bydd rhaid ei dynnu oddi ar y cyngor,

5. Ariannol

5.157 Cyfrif Cadw: £222.84

5.158 Cyfrif Cyfredol: £4065.76

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.159 Archwilio Cymru £290.00

5.160 Sarah Dafis: £120.00

5.161 Cyflog Clerc (6 Mis): £480

5.162 Costau Clerc (6 mis) £140

5,163 HMRC (6 mis): £119.80

5,164 Cytunwyd i wneud taliad ychwanefol o £480 i'r clerc.

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol

6.69 NP5/73/LB181A - Bron Turnor Mawr, Maentwrog. - Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer tynnu morter sment o waith carreg y ddau brif gorn
simnai a gosod cwteri alwminiwm bwrw proffil 'ogee' newydd a bracedi a chysylltiadau pibellau dŵr crwn a gosod pibellau haearn bwrw yn lle'r pibellau awyru pridd plastig a'r pibellau sinc presennol

Gwrthwynebiad i'r cais canlynol

6.70 NP5/73/248D Cefn Faes, Gellilydan. - Codi garej ddwbl ar wahân a gweithdy

6.8.24



CamScanner

Clerc i ymateb, Mae aelodau'r cyngor yn bryderys iawn am y cynllun yma ac yn teimlo dylai Cefn Faes gael ei roi ar y rhestr o Adeliadau Rhestredig ac hefyd cysylltu gyda CADW er mwyn asesu yr adeilad.

7. Gohebiaeth

244 Un Llais

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

8.26 Cafwyd adroddiad byr gan Meredydd Williams am Bwerdy Trawsfynydd.

9. Mynwent Dwyryd

9.41 Cyfrif y Fywent: £20329.44

9.42 ER/EJ am gysylltu a Mr & Mrs Rix am sgwrs anffurfiol, (cadw mlaen).

9.43 Angen torri mwy ar lwybr, (cae y fynwent). Heulwen Parry am gysylltu a'r Dref Werdd, os na allent ei wned, cysylltu a Richard Jones.

9.44 M Kerr wedi llenwi y pantiau

9.45 Meredydd Williams wedi bod mewn cysylltiad a cwmni mapio digidol o Ddolgellau. Gwybodaeth i ddilyn.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Awst 6ed, Neuadd y Pentref am 6.30 o'r gloch

EP 6.8.24



CamScanner